



## Canllawiau ar gyfer creu coetiroedd lle mae madfallod dŵr cribog yn bresennol Mehefin 2015

### 1. Cyflwyniad

Mae madfallod dŵr cribog (*Triturus cristatus*) wedi dioddef dirywiad sylweddol mewn niferoedd a dosbarthiad ledled y DU, yn bennaf trwy golli, diraddio a dryllio cynefinoedd addas, yn arbennig pyllau. Mae gwybodaeth am ddsbarthiad madfallod dŵr cribog yng Nghymru'n anghyflawn, ond rydym yn gwybod bod rhan ddwyreiniol y wlad, yn arbennig y gogledd ddwyrain, yn bwysig iawn oherwydd dwysedd uchel y pyllau yno yng nghydestun y DU ac ar lefel Ewropeaidd hefyd mae'n debyg. Mae gwaith modelu manwl o gwmpas daearyddol rhagweledig y madfall dŵr cribog yng Nghymru wedi cael ei gyflawni'n ddiweddar.

Y madfall dŵr cribog yw'r amffibiad sy'n cael ei warchod yn fwyaf llym ym Mhrydain. Mae ar Atodiad II a IV Cyfarwyddeb Cynefinoedd 1922 (a weithredir gan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau, 2010) yn ogystal ag Atodlen 5 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, 1981 (fel y'i diwygiwyd). Yn gryno, mae hyn yn ei gwneud yn anghyfreithiol i ddal neu ladd madfall dŵr cribog yn anfwriadol neu'n fwriadol, neu i anafu madfall dŵr cribog yn anfwriadol; amharu'n fwriadol ar fadfall dŵr cribog neu amharu'n fwriadol neu'n ddi-hid arnynt mewn man a ddefnyddir ar gyfer cysgod neu amddiffynfa; niweidio neu ddifa safle bridio neu fan gorffwys neu niweidio, difa neu rwystro mynediad yn fwriadol neu'n ddi-hid i fan a ddefnyddir ar gyfer cysgod neu amddiffynfa.

Efallai y bydd angen trwyddedau i ymgymryd â gwaith a allai gael ei ystyried yn drosedd fel arall.

### 2. Bioleg ac Ecoleg

Y madfall dŵr cribog yw'r madfall mwyaf ym Mhrydain ac mae'n tyfu ar gyfartaledd hyd at 150mm o hyd. Mae croen y cefn yn frown tywyll i ddu ac yn teimlo'n ronynnaidd a chanddo smotiau gwyn mân iawn ar yr ystlys. Mae'r bol yn drawiadol gyda marciau oren, melyn a du. Yn ystod y tymor bridio mae'r gwryw'n datblygu crib amlwg ar hyd ei asgwrn cefn ac mae ganddo streipiau arian ar ei gynffon.

Fel pob amffibiad, mae madfallod dŵr cribog yn treulio rhan helaeth o'r flwyddyn ar dir sych yn chwilio am fwyd ac yn gaeafgysgu mewn cymysgedd o gynefinoedd all gynnal eu hysgylfaeth di-asgwrn-cefn. Yn gynnar yn y gwanwyn maent yn mynd i byllau i fridio ac

mae'r gwrywod yn casglu yn y dŵr bas i arddangos eu hunain i'r benywod. Mae'r wyau'n cael eu dodwy fesul un, wedi eu lapio mewn dail planhigion dŵr addas. Mae madfallod yn trawsffurfio ar dri cham datblygu gwahanol yn eu bywydau: larfa dŵr, ifanc daearol (a elwir yn 'aft' yn Saesneg) a llawn dwf.

Pan nad ydynt yn bridio mae madfallod dŵr cribog yn byw ar dir sych ac yn bwydo, cysgodi a gaeafgysgu mewn sawl math o gynefin. Byddant yn crwydro at hyd at 1 cilomedr o'u pwll ond maent yn gyffredinol yn aros o fewn 250m i 500m yn dibynnu ar ansawdd y cynefin daearol sydd ar gael.

### 3. Cynefinoedd

Mae'n well gan fadfallod dŵr cribog byllau canolig i fawr (50-300m sgwâr fel arfer) sy'n cynnwys llystyfiant ar gyfer dodwy wyau. Mae grwpiau o byllau'n rhoi cyfle gwell i boblogeiddio na chyrrff unigol o ddŵr. Yn ddelfrydol ni ddylai llystyfiant sy'n ymddangos ac yn arnofio gymryd mwy nag oddeutu 60% o'r arwyneb. Fe ddylai gwaelod y pwll gynnwys mannau noeth er mwyn i'r gwrywod arddangos i'r benywod ac ni ddylid cael gormod o gysgod o amgylch y glannau, yn arbennig ar yr ochr ddeheuol. Mae pyllau cynnes, heulog yn gwneud gwell cynefin gyda mwy o ysglyfaeth di-asgwrn-cefn ynddynt na phyllau yn y cysgod.

Dylai cynefin daearol gynnig mosaig o llystyfiant twmpathog ac mae'n cynnwys bob math o gynefin (h.y. glaswelltir, prysgwydd a choetir), er mai dim ond ychydig o gyfleoedd i chwilio am fwyd a ddarperir gan rai, fel planhigfa gonwydd a chaeau grawnfwyd. Mae nodweddion parhaol fel gwrychoedd, waliau, pentyrrau o greigiau neu gerrig a changhennau yn safleoedd defnyddiol ar gyfer gaeafgysgu, gan ddarparu amodau amgylcheddol sefydlog yn y gaeaf i fwrdd oddi wrth rhew. Mae astudiaethau wedi dangos bod faint o bren marw sydd wedi cwmpo yn uniongyrchol gyfrannol i faint poblogaeth madfallod dŵr cribog. Mae symud rhwng y pyllau a'r safleoedd gaeafgysgu yn cael ei hwyluso gan gysgod fel glaswellt hir, brwyn, gwrychoedd a phrysgwydd.

### 4. Dylai cynlluniau creu coetir mewn ardaloedd a nodir fel ardaloedd pwysig ar gyfer madfallod dŵr cribog gynnwys y mesurau canlynol:

- Canfod cynefin addas ar gyfer bridio a chynefin ar y tir o fewn y safle, bydd gan gynefin da llystyfiant dwys fel y disgrifir uchod.
- Cynllunio'r cynllun plannu er mwyn cynnwys ardaloedd o gynefinoedd mewn pyllau sy'n cysylltu â'i gilydd mewn rhwydwaith. Gadael o leiaf 15 metr o lain glustogi heb unrhyw beth wedi'i blannu arno ar ochr ddeheuol y pyllau er mwyn sicrhau na fydd y coed yn cysgodi'r arwyneb pan fyddant wedi tyfu. Mae siltio pyllau oherwydd pridd ffo neu ddail sy'n disgyn yn un o brif achosion dirywiad pyllau a bydd rheolaeth y safle'n cael ei leihau os bydd glannau'r pyllau'n cael eu gadael heb eu plannu.
- Dylid osgoi creu gorchudd prysgwydd a choed os bydd hynny'n cael effaith ar gyflenwad dŵr i'r pyllau neu debygrwydd o ddifrodi leinin y pyllau.
- Dylid adeiladu unrhyw byllau newydd o fewn 250m o rai sefydlog er mwyn helpu gwladychu a dylid gadael i llystyfiant dyfu'n naturiol ynddynt. Peidiwch â chysylltu unrhyw byllau newydd i ffosydd na'u cysylltu â phyllau sefydlog a fyddai'n caniatáu mewnlifiad gan bysgod. Dylid ystyried bod pyllau'n sychu bob pum mlynedd.
- Bydd mynediad rhwydd i ochrau pyllau'n caniatáu i reolaeth pwll a glannau ddigwydd yn ôl yr angen oherwydd bod llystyfiant yn arwain at olyniaeth a dirywiad mewn cynefin dŵr agored sydd ar gael.

- Dylai mesurau bioddiogelwch fod ar waith pan fyddwch yn gweithio mewn pyllau er mwyn atal trosglwyddo rhywogaethau anffroddol goresgynnol neu glefydau megis chytrid.
- Ystyried mynediad at byllau gan gerbydau fel rhan o gynlluniau cyffredinol Dylid ceisio cyngor ar ofynion trwyddedu gan swyddfeydd lleol Cyfoeth Naturiol Cymru.

### Deunydd darllen pellach

**Baker, J., Beebee, T., Buckley, J., Gent, T. & Orchard, D. (2011)** Amphibian Habitat Management Handbook. Amphibian and Reptile Conservation, Bournemouth.

**Gent, A.H. & Gibson, S.D. (Golygyddion.) (1998)** Herpetofauna Workers Manual. Cydbwyllgor Cadwraeth Natur, Peterborough.

**Langton, T.E.S., Beckett, C.L. & Foster, J.P. (2001)** Great Crested Newt Conservation Handbook, Froglife, Halesworth.

Mae gwefan yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid yn cynnwys gwybodaeth a chyngor gwerthfawr: <http://www.arc-trust.org/>

Dr. Liz Howe, Arweinydd tîm rhywogaethau ac ymlusgolegwr, Grŵp Ecoleg Daearyl, Cyfoeth Naturiol Cymru